Cartrefi Diogelach

Mae Cartrefi Diogelach yn wasanaeth rhad ac am ddim sy'n cynnig:

- cloeon drws, cloeon ffenestri, cyfyngwyr drysau, larwm personol ayyb. Caiff y rhain eu gosod gan dîm o weithwyr sy'n brofiadol yn y maes hwn;
- cyngor a gwybodaeth ynglŷn ag atal troseddu a rhestr o asiantaethau all fod o gymorth i chi;
- gwasanaeth cyfeillgar sy'n hollol gyfrinachol.

Mae Cartrefi Diogelach ar gael i BAWB sy'n dioddef o gam-drin yn y cartref, boed hynny'n fygythiad o ymosodiad arnyn nhw eu hunain neu eu heiddo, neu sy'n cael eu haflonyddu yn ddi-baid.

Mae Cartrefi Diogelach yn rhan o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych sy'n gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, yr Awdurdod Lleol, Cymorth i Fenywod, Cymorth i Ddioddefwyr, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol, Addysg ac asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill.

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych
Denbighshire Community Safety Partnership
magu hyder : building confidence

Home Office
BUILDING A SAFE, JUST AND TOLERANT SOCIETY

Amcanion Cartrefi Diogelach:

- Gostwng y nifer o achosion cam-drin yn y cartref o fewn y gymuned;
- Gostwng yr ofn o fod yn ddioddefwr dro ar ôl tro, ceisio atal aflonyddu a hefyd gostwng yr ofn o fygythiad i berson neu eiddo;
- Darparu gwasanaeth diogelu cartrefi i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref;
- Darparu gwasanaeth am ddim heb fod angen prawf modd.

Am wybodaeth bellach neu i gyfeirio rhywun at y gwasanaeth cysylltwch â:

office-starsltd@btconnect.com

01745 360006

Ariennir y fenter hon gan Y Swyddfa Gartref a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych



01745 360006